# Pwyllgor y Ty

## Cofnodion

### Dyddiad: 15 Mawrth 2007
### Amser: 9.00am
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2. Y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'n bresennol:

William Graham, AC Ceidwadwyr (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Janice Gregory, AC Llafur
John Marek, AC Cymru Ymlaen
Owen John Thomas, AC Plaid Cymru

#### Swyddogion yn bresennol:

Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Adrian Crompton, Pennaeth dros Dro Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Steven O'Donoghue, Rheolwr Cyllid Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffioedd
Nerys Evans, Rheolwr Cyfleusterau

#### Ysgrifenyddiaeth :

John Grimes, Clerc Pwyllgor y Ty

#### Ymddiheuriadau :

Jane Hutt, AC Llafur
Y Llywydd
Claire Clancy, Y Clerc a'r Prif Weithredwr

#### Sylwedyddion :

Louise Hull, Cynorthwy-ydd Gweithredol y Dirprwy Lywydd
Jodie Franklin, Y Swyddfa Ffioedd

| | |
|---|---|
| | **Sylwadau Agoriadol** |
| | |
| | Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod olaf a oedd wedi'i drefnu ar gyfer Pwyllgor y Ty. |
| | |
| **1** | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r camau a gododd ohono** |
| | |
| 1.1 | Nododd yr Aelodau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2007 wedi'u cyhoeddi ar 28 Chwefror 2007. |
| | |
| 1.2 | Y camau a gododd o'r cyfarfodydd blaenorol HC(2)-02-07(p1) |
| | |
| | Rhwystrau Ffordd ar gyfer Pierhead Street a Harbour Drive<br><br>Dywedodd Dianne Bevan fod y cytundeb ar gyfer y cynllun yn awr wedi'i ddyfarnu. Rhagwelwyd y byddai'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac y byddai'r gost yn is na'r amcangyfrif gwreiddiol. |
| **2** | **Eitemau i'w trafod** |
| 2.1 | Cyflogi Aelodau o Staff Dros Dro i Weithio gydag Aelodau'r Cynulliad HC(2)-03-07(p2) |
| | Trafododd yr Aelodau bapur ar gyflogi aelodau o staff dros dro a thalu eu costau teithio a chynhaliaeth yn dilyn cyngor gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor :<br><br>· i nodi'r goblygiadau sydd ynghlwm wrth gyflogi staff dros dro Aelodau'r Cynulliad o ran yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol;<br><br>· y dylid anfon copïau o ddogfennau adnabod, a gyflwynwyd fel rhan o broses sgrinio'r system ddiogelwch, i'r Swyddfa Ffioedd;<br><br>· y dylid cyflwyno'r nodyn canllaw drafft a oedd ynghlwm wrth y papur i holl Aelodau'r Cynulliad. |

| | |
|---|---|
| | · y dylid anfon copi o'r papur at Andrew Davies, AC, gan iddo fod yn rhan o'r broses o sefydlu'r cynllun staff dros dro Aelodau'r Cynulliad.<br><br>Camau i'w cymryd : Wayne Cowley |
| 2.2 | Lwfansau Aelodau: Cyflwyno Derbynebau HC(2)-03-07(p3)<br><br>Trafododd y Pwyllgor bapur ar yr angen i Aelodau'r Cynulliad gyflwyno derbynebau yn dilyn cwestiynau a godwyd yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor y Ty.<br><br>Cafodd yr Aelodau drafodaeth fer ynghylch y rhesymwaith y tu ôl i lacio'r gofynion arferol o ran y Lwfans Costau Ychwanegol.<br><br>Cytunodd yr Aelodau â'r argymhelliad yn y papur ac na ddylid llacio'r gofynion ymhellach o ran cyflwyno derbynebau i ategu hawliadau.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i Wayne Cowley ddosbarthu'r wybodaeth briodol i'r holl Aelodau.<br><br>Camau i'w cymryd : Wayne Cowley |
| 2.3 | Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ymwneud â Lwfansau Aelodau'r Cynulliad HC(2)-03-07(p4)<br><br>Trafododd y Pwyllgor bapur ar faint o fanylion a gaiff eu rhoi o ganlyniad i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ynghylch Lwfansau Aelodau'r Cynulliad.<br><br>Cytunodd yr Aelodau i nodi argymhellion y papur ac i nodi faint o fanylion a roddir fel arfer o ganlyniad i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. |
| 2.4 | Sut y caiff Cyfarpar TGCh a Roddir i Aelodau'r Cynulliad ei Drin at Ddibenion Treth HC (2)-03-07(p5)<br><br>Trafododd yr Aelodau bapur ar y ffordd y caiff cyfarpar TGCh a gafodd Aelodau'r Cynulliad â'r lwfans o £3,000 yn 2005-2006 ei drin yn dilyn cwestiynau a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor:<br><br>·1 i nodi'r ffordd y caiff cyfarpar Technoleg Gwybodaeth a gafodd Aelodau'r Cynulliad â'r lwfans o £3,000 yn 2005-2006 ei drin at ddibenion treth;<br><br>·2 i ganiatáu i Aelodau sy'n ymddeol/colli eu sedd brynu cyfarpar TGCh a gawsant â'r |

| | |
|---|---|
| | lwfans hwn am y gwerth masnachol presennol llai cost dibrisiad. |
| 2.5 | Newidiadau i Hawliau Absenoldeb Mamolaeth Staff Cymorth Aelodau Cynulliad HC(2)-03-07(p6)<br><br>Trafododd y Pwyllgor bapur ar newidiadau i hawliau newydd Staff Cymorth Aelodau’r Cynulliad o ran Absenoldeb Mamolaeth etc o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2007.<br><br>Nododd yr Aelodau’r newidiadau i hawliau Absenoldeb Mamolaeth Staff Cymorth Aelodau’r Cynulliad gan gytuno y dylid cyflwyno nodyn canllaw i Aelodau’r Cynulliad fel y’i drafftiwyd. |
| 2.6 | Cyflogau Aelodau’r Cynulliad 2007 - 08 HC(2)-03-07(p7)<br><br>Trafododd y Pwyllgor effaith cyhoeddiad y Canghellor ar 1 Mawrth 2007 ynghylch cyflogau Aelodau’r Cynulliad ar gyfer 2007-2008.<br><br>Cytunodd yr Aelodau i nodi’r newidiadau yng nghyflogau Aelodau’r Cynulliad ar gyfer 2007 – 2008 ac y dylid annog y Comisiwn i anfon sylwadau at yr SSRB yn dilyn y cyhoeddiad ynglyn â chyflogau San Steffan a ddisgwylir ym mis Mehefin ond i roi digon o amser i’r SSRB gyflwyno adroddiad cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn medru ôl-ddyddio unrhyw ddyfarniad yn ystod 2007/8. |
| 2.7 | Canllawiau ar Ganiatáu i’r Cyfryngau Ddefnyddio’r Senedd (Cais gan ITV Cymru) HC(2)-03-07(p8)<br><br>Gofynnwyd i Bwyllgor y Ty ystyried cais gan ITV Cymru i ffilmio criw o blant ysgol yn y Siambr fel rhan o’u rhaglenni’n ymwneud â’r etholiad.<br><br>Nododd yr Aelodau nad oedd y cais yn cydymffurfio â phrotocol Pwyllgor y Ty ar ddefnyddio’r Siambr.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y dylid gwrthod y cais. |

| | |
|---|---|
| 2.8 | Ymgynghori â’r Cynulliad : Gorchymyn Trosglwyddo Staff HC(2)-03-07(p9)<br><br>Trafododd Pwyllgor y Ty gynnig Ysgrifennydd Gwladol Cymru i wneud Gorchymyn a fydd yn trosglwyddo staff i Gomisiwn y Cynulliad yn unol ag atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.<br><br>Nododd y Pwyllgor gynigion yr Ysgrifennydd Gwladol gan gytuno i ddirprwyo unrhyw ymgynghoriad pellach ynglyn â gwaith drafftio manwl y Gorchymyn a’i restr o enwau atodol i’r Prif Weithredwr a’r Clerc. |
| 2.9 | Adolygu Polisi Parcio Ceir yn y Bae HC(2)-03-07(p10)<br><br>Trafododd yr Aelodau'r hyn a wnaed i geisio mynd i’r afael â’r broblem parcio a fyddai’n codi pan fyddai maes parcio Queensgate yn cau.<br><br>Dywedodd Dianne Bevan y byddai maes parcio Queensgate yn cau yn ystod hydref 2007 pan fyddai’r maes parcio aml-lawr newydd gyferbyn â Chanolfan Mileniwm Cymru yn agor. Byddai arolwg o deithio i’r gwaith yn cael ei gynnal gyda’r rheini sy’n gweithio ar ystâd y Cynulliad yn y Bae.<br><br>Trafododd yr Aelodau atebion posibl i’r broblem parcio, gan gynnwys cynnig cymhelliant cynaliadwy i annog pobl i ddefnyddio ffyrdd eraill o deithio i’r gwaith, gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i Fae Caerdydd a defnyddio rhywfaint o’r lleoedd parcio gorlanw sydd ar gael. Dywedodd y Dirprwy Lywydd na ddylai’r Cynulliad yn ei farn ef dalu am leoedd parcio ceir.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor i holi’r rheini y gallai’r penderfyniad i gau’r maes parcio presennol effeithio arnynt, a defnyddi’r wybodaeth honno wrth baratoi ymarferiad i hybu dulliau mwy cynaliadwy o deithio, ac i sicrhau lleoedd parcio gorlanw dros dro yn y maes parcio arall. |
| 2.10 | Cyfleusterau Gofal Plant ar Ystâd Bae Caerdydd HC(2)-03-07(p11)<br><br>Trafododd yr Aelodau hynt y gwaith o ddarparu cyfleusterau plant ym Mae Caerdydd gan gytuno ar y camau nesaf i fwrw ymlaen â’r prosiect.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor i estyn gwahoddiad i ddarparwyr gwasanaeth fynegi diddordeb ac i ymchwilio i’r posibilrwydd o ddarparu gwasanaeth ar y cyd â sefydliadau eraill yn yr ardal. |

| | |
|---|---|
| 2.11 | Rhwydwaith Hyrwyddwyr Amrywiaeth HC(2)-03-07(p12)<br><br>Gofynnwyd i'r Aelodau gytuno i adnewyddu'r aelodaeth flynyddol â Rhwydwaith Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall Cymru.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y dylai Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad adnewyddu ei aelodaeth â'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Amrywiaeth. |

| | |
|---|---|
| 2.12 | Etholiad 2007 : Darparu TGCh a Gwasanaethau TGCh HC(2)-03-07(p13)<br><br>Trafododd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y costau TGCh yn gysylltiedig â phrosiect TGCh yr etholiad.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y dylai Merlin fod yn gyfrifol am gasglu cyfarpar TGCh, yn ôl yr argymhelliad yn y papur. |

| | |
|---|---|
| 2.13 | Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty 2006 07 HC(2)-03-07(p14)<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor y posibiliadau o ran paratoi ei Adroddiad Blynyddol 2006-7.<br><br>Cytunodd yr Aelodau ar ddewis C sy'n caniatáu i swyddogion baratoi a chyflwyno adroddiad ar y fformat arferol gan wahodd Comisiwn y Cynulliad i gytuno arno a'i gyhoeddi yn yr hydref, fel arfer, ar ôl i Gomisiwn y Cynulliad ei gymeradwyo.<br><br>Gofynnodd Janice Gregory i'r cyfarfod gofio am benderfyniad blaenorol y Pwyllgor i beidio â nodi canran presenoldeb mewn cyfarfodydd. |

| | |
|---|---|
| 2.14 | Rhyddid Gwybodaeth/Deddf Diogelu Data |
| | i) Rhyddhau Gwybodaeth sy'n Cael ei Chadw gan Gontractwyr HC(2)-03-07(p15) |
| | Trafododd yr Aelodau'r posibilrwydd i wybodaeth sy'n cael ei chadw gan gontractwyr gael ei rhyddhau'n unol â deddfwriaeth bresennol.<br><br>Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod o'r farn na ddylid chwilio am wybodaeth nad yw'n cael ei chadw gan y Cynulliad o ganlyniad i gais Rhyddid Gwybodaeth er mwyn ei rhyddhau. Dylai'r person sy'n gwneud y cais Rhyddid Gwybodaeth gael gwybod mai contractiwr, ac nid y Cynulliad, sy'n cadw'r wybodaeth – a dylid rhoi enw a chyfeiriad y contractiwr. Os yw'r wybodaeth yn amlwg yn cael ei chadw ar ran y Cynulliad yna dylid ei rhyddhau'n unol â'r Ddeddf.<br><br>Nododd y Pwyllgor, yn dilyn cyngor gan y Dirprwy Glerc, y byddai eithriadau'n cael eu hystyried bob tro y byddai cais i weld gwybodaeth yn dod i law ond, er hynny, gellid |

| | |
|---|---|
| | rhyddhau gwybodaeth sy’n cael ei chadw gan gontractwyr mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir i’r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â’r ddeddfwriaeth. |
| | ii) Sesiwn Breifat o Gyfarfod y Pwyllgor Archwilio yn 2002 HC(2)-03-07(p16) |
| | Cafodd yr Aelodau wybod am gais a gafwyd yn ddiweddar gan aelod o’r cyhoedd i gael gweld gwybodaeth yn ymwneud â sesiwn breifat o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio yn 2002.<br><br>Eglurodd Adrian Crompton y drefn sy’n bod yn awr i sicrhau nad yw sesiynau preifat y pwyllgorau’n cael eu cofnodi.<br><br>Nododd y Pwyllgor y dylid rhyddhau gwybodaeth briodol yn unol â thelerau’r Ddeddf Diogelu Data, pe bai cais yn dod i law. |
| 2.15 | Trosglwyddiadau Cyllideb 2006 – 07 HC(2)-03-07(p17) |
| | Trafododd y Pwyllgor gynigion y Clerc ar gyfer trosglwyddiadau cyllideb 2006/7.<br><br>Cytunodd yr Aelodau â’r cynigion ar gyfer y trosglwyddiadau. |
| 2.16 | Eitemau a gyfeiriwyd gan y Comisiwn Cysgodol |
| | i) Canolfan Addysg yn Swyddfa’r Cynulliad HC(2)-03-07(p27)<br><br>Gofynnwyd i Bwyllgor y Ty roi ei farn ar gynnig y Comisiwn Cysgodol i symud y Ganolfan Addysg o Adeilad y Pierhead i Swyddfa’r Cynulliad. Roedd y Comisiwn Cysgodol eisoes wedi trafod y papur, ac wedi nodi yr hoffent ddefnyddio’r safle ger y Siambr Fach yn ogystal â gwneud defnydd hyblyg o’r Neuadd.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylai’r swyddogion fwrw ymlaen â’r cynigion nes y bydd Comisiwn y Cynulliad wedi’i sefydlu.<br><br>Gofynnodd Dr Marek a fyddai’n bosibl cael rhagor o swyddogion addysg, gyda mwy o bwyslais ar wasanaethau yng Ngogledd Cymru. Eglurodd Gwen Parry y sefyllfa o ran cyflogi a defnyddio swyddogion addysg fel rhan o Wasanaeth Seneddol y Cynulliad. |
| **3** | **Eitemau i’w nodi** |

| | |
|---|---|
| 3.1 | Adroddiad Cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-03-07(p18) |
| | Nododd yr Aelodau’r adroddiad. |
| 3.2 | Yr Is-grwp TGCh HC(2)-03-07(p19) |
| | Nododd yr Aelodau gofnodion yr Is-grwp TGCh a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2007. |
| | Yr Is-grwp Adeiladau |
| 3.3 | i) Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2007 HC(2)-03-07(p20) |
| | Nododd yr Aelodau gofnodion cyfarfod yr Is-grwp Adeiladau a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2007 |
| | ii) Cais i Arddangos Gwaith Celf ar Ystâd y Cynulliad HC(2)-03-07(p21) |
| | Trafododd y Pwyllgor gais gan yr Is-grwp Adeiladau i arddangos gwaith celf. |
| | Cytunodd yr Aelodau â’r cais i arddangos gwaith celf yn dwyn y teitl ‘Hen Siroedd Cymru’. |
| | iii) Rheoli Digwyddiadau - : Polisi a Chyfraddau Adennill Costau HC(2)-03-07(p22) |
| | Trafododd y Pwyllgor gynnig i adennill rhywfaint o gostau digwyddiadau a gynhaliwyd yn y Senedd a Swyddfa’r Cynulliad gan drefnwyr y digwyddiadau. |
| | Cytunodd yr Aelodau â’r polisi adennill costau a amlinellwyd yn y papur. |
| 3.4 | Adroddiad Misol Adnoddau Dynol HC(2)-03-07(p23) |
| 3.5 | Nododd yr Aelodau’r adroddiad. |
| | Dangosyddion yn erbyn Targedau HC(2)-03-07(p24) |
| | Nododd yr Aelodau’r adroddiad. |
| 3.6 | Dywedodd Lorraine Barrett iddi weld cyflwyniad gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i’r Cyhoedd yn ddiweddar mewn cyfarfod ym Merthyr Tydfil. |
| | A bod eu gwaith wedi creu cryn argraff arni. |
| 3.7 | Mynediad at Wybodaeth HC(2)-03-07(p25) |

Nododd yr Aelodau'r adroddiad

Gweithgareddau Cysylltiadau Tramor ac Allanol HC(2)-03-07(p26)

**4** Nododd yr Aelodau'r adroddiad.

4.1

## Unrhyw Fater Arall

Defnyddio TGCh dros Gyfnod yr Etholiad

Dywedodd Dr Marek ei fod yn teimlo bod y canllawiau a gafodd yr Aelodau'n ddiweddar, yn eu gwahardd rhag defnyddio cyfrifiaduron at ddibenion eu plaid neu ddibenion etholiadol, yn groes i'r canllawiau blaenorol a ddywedodd fod Aelodau a'u Staff Cymorth yn cael defnyddio at ddibenion preifat yn eu hamser eu hunain ar yr amod nad oedd adnoddau'r Cynulliad yn cael eu defnyddio.

4.2

Dywedodd Dianne Bevan y byddai'n holi i gael eglurhad ar y sefyllfa.

Camau i'w cymryd : Dianne Bevan

Is-les Swyddfa'r Cynulliad

4.3

Cyfeiriodd Dr Marek at yr e-bost a ddosbarthwyd i Aelodau'r Pwyllgor ynghylch yr is-les ar gyfer y rhannau hynny o Swyddfa'r Cynulliad y mae'r Llywodraeth yn eu defnyddio.

4.4

Trafododd yr Aelodau sefyllfa'r maes parcio a materion eraill sy'n gysylltiedig â defnydd y Llywodraeth o'r adeilad. Dywedodd Dr Marek ei bod yn bwysig ystyried sut y byddai'r mater yn cael ei drin pe bai angen rhagor o le yn y dyfodol ar gyfer Aelodau ychwanegol. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n rhaid dod i gytundeb â'r Llywodraeth a fyddai mewn grym ar y pryd ac y byddai'r is-les yn caniatáu trafodaeth ar y mater.

Yr Is-grwp TGCh

Cytunodd y Pwyllgor y dylid cadarnhau cofnodion cyfarfod terfynol yr is-grwp oddi allan i'r pwyllgor.

4.5

Cytunodd yr Aelodau.

Camau i'w cymryd : John Grimes

Cau'r Senedd yn ystod y Toriad

| | |
|---|---|
| | Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Senedd ar gau i'r cyhoedd ar ddau brynhawn gwahanol yn ystod toriad y Pasg er mwyn gosod a recordio darllediadau'r BBC yn ymwneud ag Etholiad y Cynulliad. Ni fyddai ymweliadau cyffredinol yn bosibl oherwydd hynny. Byddai'r rheini â cherdyn mynediad yn cael mynd i mewn i'r adeilad yn amodol ar ystyriaethau iechyd a diogelwch a'r gwaith recordio.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Aelodau gael gwybod am y cyfyngiadau hyn ar fynediad i'r adeilad.<br><br>Dod â Phwyllgor y Ty i ben<br><br>Hwn oedd y cyfarfod olaf a drefnwyd ar gyfer Pwyllgor y Ty.<br><br>Diolchodd William Graham i'r Aelodau presennol ac i'r cyn aelodau, am eu gwaith caled a'u cyfraniadau gwerthfawr yn ystod oes Pwyllgor y Ty.<br><br>Diolchodd i Dr Marek am ei gyfnod blaenorol fel Cadeirydd y Pwyllgor. Diolchodd hefyd i'r swyddogion am sicrhau bod y cyfarfodydd yn rhedeg yn ddidrafferth ac am eu holl waith caled yn cynorthwyo a chynghori'r Pwyllgor. |
| | |
| | Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty<br><br>Mawrth 2007 |